# ANTHONY SOFFE
## CLWB HOCI CAERFFILI A RHONDDA CYNON TAF

Mae Anthony wedi bod yn ymwneud â Chlwb Hoci Caerffili a Rhondda Cynon Taf ers iddo fod yn blentyn. Mae wedi gweithio’n galed i ddod yn rhan o’r tîm cyntaf ac mae bellach yn Gapten ar y Tîm Cyntaf, Is-gadeirydd y Clwb a Hyfforddwr y Tîm Ieuenctid.

Mae'r clwb wedi ei chael hi’n anodd datblygu tîm ieuenctid ers sawl blwyddyn. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Anthony wedi bod yn gweithio'n ddiflino i ymgysylltu â chwaraewyr ifainc a’u recriwtio. Mae'n cymryd amser i ffwrdd o’r gwaith yn rheolaidd er mwyn darparu sesiynau ar ôl ysgol mewn ysgolion lleol ac yn ymgysylltu â ni er mwyn darparu gwersylloedd Hoci yn ystod gwyliau'r ysgol. O ganlyniad, mae nifer o aelodau ifainc newydd wedi ymuno â'r clwb ac mae nifer sylweddol yn mynychu eu sesiynau ieuenctid bob nos Lun. Mae ymroddiad Anthony a'i ymrwymiad i dyfu'r clwb a chynnig cyfleoedd i bobl ifainc yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan holl aelodau'r clwb.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# GWIRFODDOLWR Y MIS

## AWST 2025